# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
**Swyddfa'r Cyngor**
**CAERNARFON**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**

At: Aelodau'r Cyngor 4/10/21

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD Y CYNGOR – 7 HYDREF, 2021**
**ADRODDIAD HWYR**

Atodaf adroddiad hwyr yng nghyswllt yr eitem isod:-

**11. ADOLYGIAD O FFINIAU ETHOLIADOL GWYNEDD** 2 - 5

Cyflwyno adroddiad yr Arweinydd.

Yn gywir,

**Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth**

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 7fed o Hydref, 2021 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adolygiad o Ffiniau Etholiadol Gwynedd. |
| **Pwrpas:** | Adrodd ar benderfyniad Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i dderbyn argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru mewn perthynas â Sir Gwynedd. |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd |
| **Swyddog (ion) Cyswllt:** | Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr |

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Argymhellir bod y Cyngor Llawn yn derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

### 2. CEFNDIR A RHESYMEG

**CEFNDIR**

1. Bydd holl aelodau'r Cyngor yn ymwybodol fod y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol wedi cyhoeddi ei "Adroddiad Argymhellion Terfynol" ar gyfer yr arolwg o drefniadau etholiadol ar gyfer Cyngor Gwynedd ar y 6ed o Dachwedd, 2018. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyngor Llawn ar 6ed o Ragfyr, 2018.

2. Ar y 29ain o Fedi, 2021 cadarnhaodd Rebecca Evans, AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ei phenderfyniad i dderbyn argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gydag addasiadau, mewn perthynas â Sir Gwynedd.

3. Cafodd pob aelod neges e-bost ynghyd â dolen at y wybodaeth lawn sydd wedi ei gosod ar fewnrwyd yr Aelodau ar y 29ain o Fedi, 2021.

**ADDASIADAU A WNAED I ARGYMHELLION TERFYNOL Y COMISIWN AR GYFER TREFNIADAU ETHOLIADOL GWYNEDD**

4. Cadarnhaodd y Gweinidog yr addasiadau isod a wnaed i Argymhellion Terfynol y Comisiwn ar gyfer trefniadau etholiadol:

   - "Argymhellodd y Comisiwn yr enw sengl Brithdir, Llanfachreth, Y Ganllwyd a Llanelltyd. Rhoddir yr enw Saesneg Brithdir a Llanfachreth/ Ganllwyd/ Llanelltyd i'r ward etholiadol ac enw Cymraeg Brithdir a Llanfachreth / Y Ganllwyd / Llanelltud. Mae hyn yn golygu bod enwau'r wardiau etholiadol yn aros fel ar hyn o bryd.
   - Argymhellodd y Comisiwn yr enw ward sengl Cwm-y-Glo. Rhoddir yr enw Saesneg Cwm-y-Glo i'r ward etholiadol a'r enw Cymraeg Cwm-y-glo. Mae hyn yn golygu bod enwau'r wardiau etholiadol yn aros fel ar hyn o bryd."

**CRYNODEB O'R PRIF NEWIDIADAU**

5. Mae'r Comisiwn yn argymell newid i drefniant wardiau etholiadol a fydd yn cyflawni gwelliant nodedig o ran lefel y cydraddoldeb etholiadol ar draws Sir Gwynedd.

6. Mae'r prif newidiadau a argymhellwyd gan y Comisiwn fel a ganlyn:

I. Cyngor yn cynnwys **69 aelod**, sef gostyngiad o'r 75 aelod presennol.

II. **65 o wardiau etholiadol**, sef gostyngiad o'r 71 o wardiau presennol.

III. **4 ward aml-aelod** yn y sir (sef pedair ward gyda 2 aelod) – y wardiau yw Bethel a'r Felinheli, Canol Bangor, Dwyrain Bangor a Harlech a Llanbedr.

IV. 10 ward etholiadol o fewn y sir sy'n cyfuno rhan o gymuned â wardiau gyda chymuned gyfagos.
(Ceir y rhaniadau hyn yn y gymuned yn Nhref Porthmadog, a Chymunedau Dolbenmaen, Llanddeiniolen, Llandwrog, Llandygai, Llanengan, Llanllyfni, Llannor, Llanwnda, Pentir a Waunfawr.)

V. Nifer o newidiadau i'r ffin yn Ninas Bangor, Trefi Caernarfon, Dolgellau a Ffestiniog a Chymuned Bethesada.
(Mae'r Comisiwn wedi argymell nifer o newidiadau ôl-ddilynol i Gyngor Dinas Bangor, Cyngor Cymuned Bethesda, Cyngor Tref (Frenhinol) Caernarfon, Cyngor Tref Dolgellau a Chyngor Tref Ffestiniog o ganlyniad i'r newidiadau hyn i'r ffiniau).

7. Ni fydd unrhyw newid i 27 o’r wardiau cyfredol.

| | |
|---|---|
| Arfon | Deiniolen, Groeslon, Llanberis, Llanrug, Penygroes, Dewi (Bangor), Glyder (Bangor), Tregarth a Mynydd Llandygai [8] |
| Dwyfor | Abererch, Criccieth, Dolbenmaen, Efailnewydd/Buan, Llanystumdwy, Nefyn, Porthmadog (Dwyrain), Porthmadog (Gorllewin), Pwllheli (De), Pwllheli (Gogledd), Llanaelhaearn [11] |
| Meirionydd | Aberdyfi, Dyffryn Ardudwy, Trawsfynydd, Abermaw, Brithdir, Bowydd a Rhiw, Corris a Mawddwy, Y Bala [8] |

## 3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 Mae’r broses adolygu wedi cychwyn ers 2017, a llwyddwyd i ymgynghori gyda’r holl aelodau nifer o weithiau yn ystod y daith. Cyflwynwyd sylwadau i’r Comisiwn Ffiniau ac Etholiadau fel a ganlyn.

| CAM YR AROLWG | DISGRIFIAD |
|---|---|
| 08 Chwefror 2017 | Ysgrifennodd y Comisiwn at Gyngor Gwynedd |
| 10 Chwefror 2017 – 31 Mai 2017 | Cyfnod ymgynghori cychwynnol.<br>Llwyddwyd i ymgynghori gydag aelodau cyn etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017.<br>Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach gydag aelodau yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol mis Mai 2021 gan fod aelodau newydd wedi eu hethol.<br>Adroddwyd i’r Cyngor Llawn am sylwadau ar 15/06/2021 gan gyflwyno ymateb llawn i’r Comisiwn. |
| 23 Ionawr 2018 | Cyhoeddi’r cynigion drafft gan y Comisiwn |
| 30 Ionawr 2018 – 23 Ebrill 2018 | Cyfnod ymgynghori ar y Cynigion Drafft.<br>Adroddwyd i’r Cyngor Llawn am sylwadau ar 01/03/2018 gan gyflwyno ymateb llawn i’r Comisiwn. |
| 06 Tachwedd 2018 | Cyhoeddi’r Argymhellion Terfynol gan y Comisiwn.<br>Adroddwyd i’r Cyngor llawn am sylwadau ar 6ed o Ragfyr 2018 gan gyflwyno ymateb llawn i’r Comisiwn. |

## 3.1 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

### Swyddog Monitro:

Fe nodir yn yr adroddiad fod y daith o gynnal yr adolygiad yma wedi cymryd cryn amser. Bellach gyda datganiad gan y Gweinidog yn cadarnhau y bwriad o ran gweithredu'r newidiadau bydd modd symud ymlaen i ymateb i'r hyn a amlygir.

### Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.